**Darren Millar AS - Ymweliad â Thallinn**

**14 – 16 Tachwedd 2024**

## Diben yr Ymweliad

I ymuno â seneddwyr o bob cwr o Ewrop a oedd yn cymryd rhan yn y trydydd Brecwast Gweddi Nordig-Baltig blynyddol yn y Riigikogu (Senedd Estonia) a digwyddiadau cysylltiedig yn Nhallinn, ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gymru a'r Senedd ymhlith y cyfranogwyr.

## Cinio nos cyn y digwyddiad

Ar y noson cyn y brecwast, bûm mewn cinio rhwydweithio gyda seneddwyr a chynrychiolwyr eraill o'r gwledydd Nordig-Baltig, a gwledydd eraill ar draws cyfandir Ewrop.

Fel seneddwr o Gymru gofynnwyd i mi ddweud gair. Wrth wneud hynny, estynnais gyfarchion ac eglurais ychydig am Gymru a'r Senedd.

Dros ginio cefais gyfle i ymgysylltu â chynrychiolwyr a seneddwyr o'r Ffindir ac Estonia i drafod y sefyllfa wleidyddol gyfredol yn eu gwledydd hwy, gan eu cymharu â'n sefyllfa ni yng Nghymru.

## Cyfarfod â Llefarydd y Riigikogu

Cyn y digwyddiad Brecwast Gweddi Nordig-Baltig cefais y cyfle i gwrdd â Lauri Hussar AS, Llefarydd y Riigikogu. Fe wnaethon gyfnewid gwybodaeth am y gweithdrefnau seneddol a'r systemau etholiadol yng Nghymru ac yn Estonia, a thrafodwyd ein hagenda ar gyfer diwygio'r Senedd.

Esboniodd y Llefarydd fod y Riigikogu yn cynnwys 101 o seddi a bod ei gynrychiolwyr yn cael eu hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol rhestr agored mewn deuddeg etholaeth aml-aelod gyda rhwng 5 ac 16 sedd yr un, yn dibynnu ar eu poblogaeth. Rhaid i bob plaid wleidyddol hefyd sicrhau o leiaf 5% o'r bleidlais mewn etholaeth i sicrhau sedd. Nid oes dim cynlluniau i wneud newidiadau i'r system etholiadol, sydd bob amser yn ei gwneud yn ofynnol i gael clymblaid i ffurfio'r mwyafrif angenrheidiol i lywodraethu.

Trafodwyd hefyd y perthnasoedd rhwng llywodraeth genedlaethol, llywodraeth ranbarthol a llywodraeth leol yn Estonia, a sut mae'r rhain yn cymharu â Chymru.

## Brecwast Gweddi Nordig-Baltig

Cefais fy ngwahodd i fod yn un o'r siaradwyr yn y brecwast gweddi. Rhoddodd hyn gyfle i mi rannu gwybodaeth am Gymru a'i hanes, ac esbonio sut mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau ffydd yng Nghymru a'r ymgysylltiad cadarnhaol â nhw.

Yn ystod y digwyddiad, llwyddais hefyd i gyflwyno nwyddau i seneddwyr o Estonia a oedd yn cynnal y brecwast ar ran Brecwast Gweddi Seneddol Dewi Sant dros Gymru. Roedd hyn yn cynnwys llwyau caru a darn arian coffaol.

Roedd rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad wedi ymweld â Chymru i fynd i ddigwyddiadau Brecwast Gweddi Seneddol Dewi Sant yn y gorffennol ac, yn dilyn fy nghyfraniad, mynegodd eraill ddiddordeb mewn ymgysylltu â'r Senedd yn y dyfodol.

**Trafodaeth ar y Bil Amaethyddiaeth**

Cymerais ran mewn trafodaeth ar y cyd ar bolisi amaethyddiaeth a choedwigaeth gyda seneddwyr o Estonia, Sweden a'r Ffindir. Roedd hyn yn caniatáu i mi nodi pwysigrwydd ffermio i Gymru, ac amlinellu'r drafodaeth genedlaethol ar Gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a’r cynigion gan Lywodraeth y DU i wneud newidiadau i'r Dreth Etifeddiaeth.

Fe’m trawyd pa mor debyg yw’r heriau y mae'r sector amaethyddol yn eu hwynebu ym mhob un o’r cenhedloedd, yn enwedig o ran cydbwyso ffactorau amgylcheddol â chynhyrchu bwyd, a'r amrywiaeth o ymatebion polisi sy'n cael eu defnyddio.

**Cyfarfod â Chadeirydd Pwyllgor Cyllid Riigikogu**

Yn ystod yr ymweliad, cyfarfûm hefyd â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn y Riigikogu, sef Annely Akkermann. Fe wnaethom drafod blaenoriaethau a heriau ariannol cyfredol, a chymharu a gweld gwahaniaethau yn ein prosesau craffu ar y gyllideb yng Nghymru ac Estonia. Roedd y cyfarfod yn hynod addysgiadol.

**Casgliad**

Roedd yn anrhydedd cael gwahoddiad i gynrychioli Cymru, ac i siarad a chymryd rhan yn y 3ydd Brecwast Gweddi Nordig-Baltig.

Galluogodd fy nghyfranogiad yn y digwyddiad fi i hyrwyddo Cymru, y Senedd, a gwaith y Senedd a Llywodraeth Cymru wrth ymgysylltu â'n cymunedau ffydd, a'u cefnogi.

Roedd y cyfarfodydd gyda Llefarydd y Riigikogu a chyda Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn addysgiadol ac yn rhoi rhywbeth i feddwl amdano o ran sut y gellid gwella prosesau seneddol a chyllidebol yn y Senedd.

**Darren Millar AS**
**Gorllewin Clwyd**